# Esgeulustod

Mae esgeuluso plant yn fethiant ar ran y gofalwr gwryw ac/neu fenyw neu'r fam feichiog i gwblhau'r tasgau rhianta sy'n ofynnol i sicrhau bod anghenion datblygiadol y plentyn yn cael eu diwallu. Gall y methiant hwn fod yn gysylltiedig â materion rhianta fel camddefnyddio cyffuriau ac alcohol. Dylid gwahaniaethu esgeulustod o dlodi ac mae'n digwydd er bod adnoddau rhesymol ar gael i alluogi'r gofalwr/gofalwyr i gwblhau'r tasgau rhianta i safon ddigon da. Er bod esgeulustod yn debygol o barhau ac achosi niwed cronnus, gall digwyddiadau untro ac esgeulustod episodig effeithio ar iechyd a datblygiad y plentyn. Mae amrywiaeth o ymddygiadau magu plant y gellir eu disgrifio fel esgeulustod:

**Esgeuluso meddygol**: methu â cheisio a darparu gofal meddygol, deintyddol ac optegol priodol

**Esgeuluso maethol:** yn digwydd pan fo gofalwr yn methu â thalu digon o sylw i ddeiet plentyn sydd efallai'n ordew neu'n methu â ffynnu

**Esgeuluso goruchwyliol**: yn digwydd pan fo gofalwr yn methu â darparu'r lefel o arweiniad a goruchwyliaeth sy'n sicrhau bod y plentyn yn ddiogel ac yn cael ei amddiffyn rhag niwed

**Esgeuluso addysgol**: mwy na sicrhau presenoldeb yn yr ysgol yn unig. Yn cynnwys methiant ar ran gofalwr i ddarparu amgylchedd sy'n caniatáu i'r plentyn gyflawni ei botensial gwybyddol

**Esgeuluso corfforol:** yn digwydd pan nad yw'r plentyn yn derbyn y gofal corfforol priodol sy'n angenrheidiol ar gyfer ei oedran a'i ddatblygiad ac/neu lle mae'r plentyn yn byw mewn amgylchedd corfforol nad yw'n ffafriol i'w iechyd a'i ddatblygiad ac/neu nad yw'n ddiogel

**Esgeuluso hunaniaeth:** yn digwydd pan fo rhiant neu ofalwr yn methu ag adnabod a mynd i'r afael ag anghenion person ifanc mewn perthynas â diwylliant, crefydd, rhyw a rhywioldeb.

Jane Ashman
SAFEGUARDING